

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/3346/21

Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

6 Hydref 2021

Annwyl Clare,

Gorsaf Bŵer Aber-wysg

Cyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru: cais gan SIMEC Uskmouth Power Ltd. i amrywio trwydded amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Y Cefndir

Mae'r gweithredwr presennol, SIMEC Uskmouth Power Ltd., wedi gwneud cais i Gyfoeth Naturiol Cymru i amrywio'r drwydded amgylcheddol bresennol ar gyfer Gorsaf Bŵer Aber-wysg, er mwyn caniatáu i'r weithfa losgi pelenni tanwydd sy'n deillio o wastraff yn lle glo. Mae hyn yn golygu y byddai'r cyfleuster yn dod yn gyfleuster ynni o wastraff graddfa fawr.

Polisi Llywodraeth Cymru, a gynhwysir yn y ddogfen strategaeth "Mwy nag Ailgylchu", ac a adlewyrchir yn y Datganiad gan y Gweinidog a gyhoeddwyd gan Lesley Griffiths (AS) ym mis Mawrth 2021, yw bod rhagdybiaeth yn erbyn cyfleusterau ynni o wastraff graddfa fawr newydd yng Nghymru, am y rhesymau sy'n cael eu hegluro yn llawnach yn y ddogfen strategaeth.

Mae'r posibilrwydd y bydd Aber-wysg yn dod yn gyfleuster ynni o wastraff, felly, yn ymwneud yn uniongyrchol â pholisiau allweddol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Yn sgil hyn, rwyf yn ystyried bod y cais yn un o arwyddocâd sylweddol ac rwyf yn ystyried y byddai'n briodol i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais i amrywio trwydded. O ganlyniad, rwyf yn gwneud y Cyfarwyddyd a ganlyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyfarwyddyd

Yn unol â'r pŵer yn rheoliad 63(1) o Ddeddf Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016¹, rwyf yn cyfarwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru ('CANC') i atgyfeirio'r cais gan SIMEC Uskmouth Power Ltd – i amrywio trwydded amgylcheddol mewn perthynas â Gorsaf Bŵer Aber-wysg – at Weinidogion Cymru iddynt benderfynu arno. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn cael effaith ar unwaith pan fo CANC yn ei gael.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

¹ O.S. 2016/1154